**Cost ar gyfer Aelod Cynulliad**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

23 Ebrill 2019

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 18 Mawrth, pan wnaethoch ofyn:

1. *Faint mae'n ei gostio i ariannu un Aelod Cynulliad (AC)? Dylai'r cyfanswm gynnwys cyflogau'r Aelod Cynulliad a'i staff cymorth*
2. *Dylai hefyd gynnwys costau treuliau cyfartalog yr Aelod Cynulliad a'i staff cymorth*

Gweler isod yr ymateb i'ch cais:

1. *Faint mae'n ei gostio i ariannu un Aelod Cynulliad (AC)? Dylai'r cyfanswm gynnwys cyflogau'r Aelod Cynulliad a'i staff cymorth*

Cyflog Aelodau'r Cynulliad (AC) yw £66,847 ar hyn o bryd. Cafodd ei bennu ar £64,000 ar ddechrau'r Pumed Cynulliad, ac mae wedi'i fynegeio yn ôl enillion cyfartalog yng Nghymru (gweler paragraff 3.9, tudalen 11 o'r Penderfyniad). Efallai y bydd rhai Aelodau'r Cynulliad yn gymwys i gael cyflog ychwanegol os ydynt yn ddeiliaid swyddi ychwanegol, megis penodiad Gweinidogol neu Gadeirydd Pwyllgor. Nodir y rhain ym mharagraff 3.1.4 o'r Penderfyniad.

Ar gyfer 2017-18, cyhoeddir costau staff yr Aelodau yn ein hadroddiad blynyddol (gweler tudalen 155). Caiff adroddiad blynyddol 2018-19 ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf.

2. *Dylai hefyd gynnwys costau treuliau cyfartalog Aelod Cynulliad a'i staff cymorth.*

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@cynulliad.cymru
Information-request@assembly.wales

Cyhoeddir treuliau pob Aelod Cynulliad drwy gronfa ddata ar-lein. Os oes angen cyfarwyddiadau manwl arnoch o ran sut i'w chwilio, rhowch wybod i mi. Gan fod y wybodaeth hon ar gael eisoes, mae eich cais yn ddarostyngedig i adran 21 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 sy'n eithrio gwybodaeth sydd eisoes ar gael yn rhesymol mewn ffyrdd eraill.

Ni chyhoeddir treuliau staff cymorth, felly cyfanswm y gost ar gyfer 2018-19 oedd £42,262.05. Ni allwn roi ffigur cyfartalog i chi gan fod pob Aelod Cynulliad yn cyflogi nifer amrywiol o staff.

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Ystyriwyd eich cais yn unol â’r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i’r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Rhowch wybod imi os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dilynwch y canllawiau isod.

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch cais am wybodaeth?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae'r Cynulliad wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn: Ceisiadau-gwybodaeth@cynulliad.cymru neu'r cyfeiriad post a ganlyn:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i’r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â’r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF